# Gwerth perthynol darllen: safbwyntiau gan deuluoedd gofalwyr sy'n berthynas

## Cyflwyniad

**Mae manteision darllen yn cael eu cydnabod yn eang. Ond yng nghyd-destun teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas, lle gallai plant fod wedi dioddef tarfu neu drawma, mae'r manteision hyn yn fwy dwfn byth. Daw rhannu straeon yn ddull o feithrin a chysylltu.**

Yn 2024, yn rhan o'r Strategaeth Gofal gan Berthynas Genedlaethol, darparodd BookTrust gyfres o gymorth i deuluoedd gofalwyr sy'n berthynas trwy raglen ehangach dan arweiniad Kinship – yr elusen gofal gan berthynas blaenllaw yng Nghymru a Lloegr. Bwriad y cymorth hwn oedd helpu gofalwyr i ddatgloi grym unigryw darllen a rhannu straeon i ddeall a diwallu anghenion y plant dan eu gofal.

**Gofal gan berthynas** yw pan fydd perthnasau neu ffrindiau yn gofalu am blentyn gan nad yw ei rieni yn gallu. Amcangyfrifir bod mwy na 140,000 o blant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhan o ryw fath o drefniant gofal gan berthynas.[1]

Darparodd BookTrust lyfrau, ynghyd â gwybodaeth, cyngor a chymorth i dros 1,000 o deuluoedd gofalwyr sy'n berthynas trwy:

- 16 o ddigwyddiadau sioeau teithio gofalwyr sy'n berthynas (yn cynnig gwybodaeth, llyfrau a chymorth)
- 8 o weithdai (yn cynnig gwybodaeth a chyngor trylwyr o ran defnyddio straeon i drafod emosiynau a hunaniaeth)
- 3 Sesiwn Stori ar-lein
- 50 o danysgrifiadau Darganfyddwyr Straeon (pecynnau misol â llyfrau ac adnoddau)

## Ynglŷn â'r papur briffio hwn

Mae'r papur briffio hwn yn cynnig gwybodaeth newydd am y rhan y gall darllen a rhannu straeon ei chwarae ym mywydau teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas a'r mathau o gymorth sydd fwyaf ystyrlon yn eu barn nhw. Mae gofal gan berthynas yn derm eang sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau a phrofiadau. Mae'r themâu a amlinellir yn y papur briffio hwn wedi'u seilio ar brofiadau a safbwyntiau'r rhai y gwnaethom siarad â nhw ac efallai nad ydynt yn gynrychiadol o bob gofalwr sy'n berthynas.

Hoffem ddiolch i'r teuluoedd a rannodd eu safbwyntiau a'r Adran Addysg a Gofal gan Berthynas am wneud ein dysgu yn bosibl.



## Ein dull dysgu

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau gennym i ddysgu, gan gynnwys:

- Arsylwadau a sgyrsiau gyda channoedd o ofalwyr yn y sioeau teithio a'r gweithdai
- Arolygon adborth o'r rhai a ddaeth i'r gweithdai (57 o ymatebion o 102 a oedd yn bresennol)
- Cyfweliadau (16 o ofalwyr sy'n berthynas, gan gynnwys 5 o arweinwyr grŵp cymheiriaid)
- Adborth gan sefydliadau partner

## Deall teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas

Llywiwyd ein dull o ddatblygu'r cymorth hwn gan ein hethos o ganolbwyntio ar y plentyn a'r teulu. Cyfunwyd ein harbenigedd o ran darllen a'r blynyddoedd cynnar gydag arbenigedd teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas trwy gyfres o weithgareddau cyd-ddylunio yn cynnwys 56 o blant a gofalwyr. Roedd y dull hwn yn hanfodol i'n llwyddiant.



> “Mae llawer o deimlad fel gofalwr sy'n berthynas, ...ddim yn cael ein clywed a ddim yn cael yr un lefel o gymorth ag ochr mabwysiadu a maethu pethau... Felly i gael rhywbeth sydd wedi'i dargedu'n fwy penodol i ddeall...”
>
> **Arweinydd grŵp cymorth gofalwyr sy'n berthynas, yn trafod gweithdy wyneb yn wyneb**

Yn ein sgyrsiau, clywsom am rai o'r heriau yr oedd gofalwyr yn eu llywio. Ceir ymchwil da i lawer o'r heriau hyn, ond mae ein dysgu yn cynnig gwybodaeth newydd am sut y gall cymorth darllen, llyfrau a straeon gynorthwyo gyda'r heriau hyn.

- **Rheoli ymddygiadol ac emosiynol:** mae gan ofalwyr ddiddordeb arbennig mewn darllen a rhannu straeon fel ffordd o gefnogi rheolaeth ymddygiadol ac emosiynol plant y maent yn gofalu amdanynt
- **Cyfyngiadau ariannol:** nid yw llyfrau plant bob amser yn rhywbeth y mae'n hawdd ei fforddio, felly mae'r cyfle i roi llyfrau newydd i blant yn brofiad a drysorir
- **Teimlo'n anweledig:** mae gofalwyr yn aml yn teimlo wedi'u hanghofio ac yn ddi-gefnogaeth yn y system ehangach ac o fewn diwylliant poblogaidd. Mae cymorth sydd wedi'i ddylunio'n benodol iddyn nhw, gan gynnwys llyfrau sy'n adlewyrchu eu strwythurau teuluol amrywiol, yn cynnig cydnabyddiaeth a dealltwriaeth

> “Yn ein Rhith-ysgol, mae defnyddio Darganfyddwyr Straeon wedi agor mynediad at amrywiaeth eang o wahanol fathau o lyfrau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol ein cohortau. Mae'n cynnig ffynhonnell hanfodol o gymorth i deuluoedd—a gofalwyr sy'n berthynas yn arbennig—gan gynnig lle magwrol a chynhwysol i'r plant ieuengaf a mwyaf agored i niwed ymgysylltu â straeon sy'n adlewyrchu eu profiadau ac yn ehangu eu gorwelion.”
>
> **Swyddog Datblygu Addysg, Rhith-ysgol**

## Gwerth perthynol llyfrau a straeon

Fe wnaethom ddysgu mai'r hyn sydd bwysicaf i deuluoedd gofalwyr sy'n berthynas yw gwerth perthynol llyfrau a straeon. Maent yn cynnig llwyfan y gall gofalwyr a phlant ei ddefnyddio i gychwyn sgyrsiau, meithrin cysylltiadau, rheoli emosiynau ac atgyfnerthu hunanwerth. Clywsom gan ofalwyr am rym yr hyn sy'n did i'r amlwg ar draws y sgyrsiau bob dydd, syml hyn.

Wrth wraidd y rhyngweithiadau hyn y mae creu cysylltiad; y broses barhaus o feithrin y cysylltiad emosiynol rhwng darparwr gofal a phlentyn.

Mae'r cysylltiad hwn yn sylfaenol i ymdeimlad plentyn o ddiogelwch, hunaniaeth, a llesiant cyffredinol, gan gynnig sylfaen ddiogel y gall y plentyn archwilio'r byd ohono.[2] Mae gwaith ymchwil yn dangos y gall rhannu llyfrau a straeon wella'r cysylltiad rhwng darparwr gofal a phlentyn trwy brofiadau cyson, emosiynol gyfoethog, sy'n cael eu llunio ar y cyd. Mae hyn nid yn unig yn bwysig i blant, ond gall hefyd gyfrannu'n sylweddol at iechyd emosiynol darparwyr gofal.[3]

> "Mae [darllen gyda'n gilydd] yn rhoi'r anogaeth a'r hyder iddi allu siarad am bethau eraill sy'n digwydd yn yr ysgol hefyd. Gan y gallwn ni eistedd i lawr ac mae'n gwybod ei bod mewn lle diogel ac y gallwn drafod unrhyw beth."
>
> **Gofalwr sy'n berthynas a ddaeth i sioe deithio**

Disgrifiodd gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw rannu llyfrau a straeon fel cyfle gwerthfawr ar gyfer amser digynnwrf i ganolbwyntio gyda'i gilydd - yn enwedig ar ôl diwrnod anodd. Ond mae'n bwysig cydnabod er bod amser stori yn creu cyfnod digynnwrf i rai, dywedodd eraill y gall gymryd ymdrech i gyrraedd yno. Efallai y bydd angen i'r plentyn a'r gofalwr reoli eu tymer cyn y gallant eistedd a mwynhau'r profiad gyda'i gilydd. Pa un a yw'n cael ei chreu trwy rannu straeon, neu er mwyn rhannu straeon, codwyd y thema hon o gyfnod digynnwrf a rheoli emosiynol ar y cyd hwn dro ar ôl tro yn ein gweithdai yn arbennig.




> "Mae gan y plentyn pump oed lawer o broblemau dicter a dweud y gwir... Ond rwyf i bob amser yn gwneud yn siŵr, cyn i ni gyrraedd amser stori, bod popeth yn cael ei wneud yn fwy digynnwrf fel y gallwn eistedd i lawr a darllen y stori... Felly, cymaint â phosibl, rwy'n diogelu'r amser hwnnw i gyrraedd y pwynt hwnnw o fod."
>
> **Gofalwr sy'n berthynas a ddaeth i sioe deithio**

Canfuwyd gennym fod gofalwyr yn chwilio am ffyrdd o siarad gyda'r plant y maent yn gofalu amdanynt am heriau penodol a phynciau cymhleth fel hunaniaeth, emosiynau anodd neu golled. Maent yn meddwl am sut i hau gwybodaeth i baratoi ar gyfer cwestiynau a heriau'r dyfodol. Maent yn gweld swyddogaeth eglur i'r mathau o lyfrau a all eu helpu i wneud hyn, ac mae ganddynt awydd cryf am gyngor ar sut i addasu straeon mwy cyffredinol i greu'r agoriadau sydd eu hangen arnynt.

> "Oherwydd ei fod yn dod i ddeall bod rhywun yn ddig yn y llyfr, hynny yw, cefais sgwrs amdano y diwrnod o'r blaen gydag ef, pan ddaeth adref o'r ysgol a siaradodd am ei emosiynau am y tro cyntaf erioed."
>
> **Gofalwr sy'n berthynas a ddaeth i sioe**

## Sioeau teithio gofalwyr sy'n berthynas

Yn rhan o'u rhaglen o gymorth, cynhaliodd, Kinship gyfres o ddigwyddiadau sioe deithio lle gallai gofalwyr gysylltu a chael gwybodaeth. Yn y sioeau teithio hyn, darparodd BookTrust lyfrau a rhestrau llyfrau. Yma, fe wnaethom ddysgu bod gofalwyr yn gwerthfawrogi'n fawr nid yn unig y llyfrau yr ydym yn eu darparu, ond hefyd syniadau a strategaethau ymarferol o ran sut i'w defnyddio fel dull cadarnhaol o sbarduno sgyrsiau ystyrlon. Efallai y bydd gofalwyr eisoes yn ymwybodol o rym defnyddio llyfrau yn y modd hwn, ond mae'r wybodaeth nad oes yn rhaid i hyd fod yn gysylltiedig â straeon penodol yn datgloi potensial newydd iddynt addasu amrywiaeth ehangach o lyfrau i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion y plant y maent yn gofalu amdanynt.

Mae gwaith ymchwil ehangach yn dangos gwerth llyfrau a straeon o ran helpu plant i fynegi eu hunain.[4] Yn yr un modd ag y gall gofalwyr gychwyn y sgyrsiau y maent yn chwilio amdanynt, gall llyfrau fod yn sbardun i blant fynegi emosiynau neu feddyliau efallai nad oedd ganddynt ffordd i'w mynegi o'r blaen.

Edrychwch ar ein **llyfrau a argymhellir** ar gyfer teuluoedd a phlant sy'n derbyn gofal gan berthynas **yma** (Saesneg yn unig).

"Roedd yn rhywbeth a oedd – nid yn unig y mae i'r plant – ond hefyd mae i mi, oherwydd mae bellach yn rhoi llwybr arall i mi ei ddilyn. I allu... mynd drwodd gyda fy machgen bach a'u darllen nhw a chael gwahanol lyfrau yn hytrach na'i lyfrau ysgol y mae'n eu darllen drwy'r amser."

**Gofalwr sy'n berthynas, yn trafod stondin BookTrust mewn sioe deithio**

"Roedd yn siarad am arwyr heb glogyn a wyddoch chi rhoddodd hi fi yn fy nagrau gan iddi edrych arnaf i a dweud. 'ond mae gen i arwr heb glogyn barod, gan mai ti yw fy arwr ac Ewythr Colin.' A meddyliais i, o mam bach, doeddwn i ddim yn disgwyl hynna..."

**Gofalwr sy'n berthynas, yn trafod y llyfr *Not All Heroes Wear Capes* a dderbyniwyd mewn sioe deithio**



## Gweithdai

Yn ein gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb, archwiliodd gofalwyr sut i ddefnyddio straeon a llyfrau i ddechrau sgyrsiau gyda'r plant y maent yn gofalu amdanynt am bynciau sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u profiadau. Fe wnaethom hefyd ddarparu llyfrau penodol ar gyfer trafod emosiynau a hunaniaeth.

Hwn oedd y tro cyntaf i ni ddarparu'r mathau hyn o sesiynau, a darganfuwyd gennym, pa un a ydynt wyneb yn wyneb neu ar-lein, ceir dau gynhwysyn allweddol:

- Lle a rennir gyda chymheiriaid sy'n wynebu heriau tebyg
- Arbenigwyr gwybodus sy'n gwrando yn gyntaf ac yna'n cynnig cyngor wedi'i deilwra

"Dechreuodd [yr hwylusydd] wrando a dysgu gan bob un ohonom ni'n unigol am y plant yr ydym yn gofalu amdanyn nhw. Ac yna eu gwybodaeth am yr holl lyfrau, y detholiad o lyfrau a oedd ganddi yno, i allu cynnig gwahanol lyfrau i wahanol bobl wedyn."

**Gofalwr sy'n berthynas, yn trafod gweithdy wyneb yn wyneb**

Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig cyngor ymarferol hawdd ei ddeall a chyfarwyddyd eglur, cryno y gellir ei ddilyn a'i roi ar waith ar unwaith.

"Roedd pobl yn siarad am broblemau yr oedden nhw'n eu cael ar yr adeg honno. Rwy'n credu fy mod i'n cael problem benodol gyda fy mhlentyn bach ac roedd [yr hwylusydd] yn gallu codi llyfr i fyny a dweud 'Edrychwch ar hwn, dyma sut fyddai hwn yn helpu gyda hynny,'...mewn ffordd ddifyr nad oedd yn ymwthiol, nad oedd yn feirniadol. Dim ond yn cynnig opsiynau."

**Gofalwr sy'n berthynas, yn trafod gweithdy wyneb yn wyneb**

Dywedodd **55 o 56** o ofalwyr eu bod wedi cael syniadau newydd ar gyfer sut i rannu straeon i gefnogi anghenion eu plentyn

Dywedodd **56 o 57** o ofalwyr y byddent yn defnyddio'r syniadau o'r gweithdy



## Darganfyddwyr Straeon

Darganfyddwyr Straeon yw ein cynnig blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas, maeth a mabwysiadol, yn cynnig pecynnau misol â llyfrau ac adnoddau i gefnogi profiadau rhannu straeon pleserus gartref. Yn rhan o raglen waith Kinship, fe wnaeth teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas naill ai dderbyn Darganfyddwyr Straeon drwy eu tîm Rhith-ysgol neu eu gwasanaeth cymorth gofal gan berthynas a maethu.

> "Rydym ni'n cydnabod bod annhegwch yn aml rhwng yr hyn y gall ein gofalwyr sy'n berthynas gael gafael arno o'u cymharu â teuluoedd mabwysiadol neu faeth. A chymerwch bob cyfle i allu cynnig adnoddau o'r fath i'n teuluoedd, gan gydnabod pwysigrwydd creu cysylltiadau trwy ddarllen a chwarae."
>
> **Rheolwr tîm (gwasanaeth cymorth gofal gan berthynas awdurdod lleol) yn trafod Darganfyddwyr Straeon**

Ers lansio Darganfyddwyr Straeon gyntaf, rydym wedi clywed gan amrywiaeth o deuluoedd ar draws meysydd maethu, mabwysiadu a gofal gan berthynas. Mae cyflwyno'r pecynnau yn cyfoethogi ac yn cymell ymddygiadau newydd, o ran darllen a'r lle perthynol y mae hyn yn ei greu. Yn hollbwysig, mae'r pecynnau wedi'u dylunio i gynorthwyo ymgysylltiad a gweithrediad plant. Rydym wedi gweld bod hyn yn chwarae rhan allweddol o ran creu'r lle a rennir y mae ymgysylltiad darllen dwysach ac ymgysylltiad perthynol dwysach yn digwydd.






### Ellena, Erica a Zahin – hanes un teulu

Mae Ellena yn ofalwr sy'n berthynas â gwarcheidiaeth arbennig dros ei hwyres a'i hŵyr, Erica (5) a Zahin (2). Mae'r adeg pan fydd Darganfyddwyr Straeon yn cyrraedd wedi dod yn rhan bleserus o'u trefn arferol. Zahin yw'r cyntaf i archwilio'r bocs bob amser, tra bod Erica, sydd ag anawsterau dysgu, yn cael ei denu yn yr un modd – mae'r llyfrau yn dal ei sylw.

Mae wrth ei bodd yn troi tudalennau, yn gofyn cwestiynau, ac yn cysylltu'r straeon â'i bywyd ei hun. Mae Erica yn cyffroi gymaint bob mis pan fydd y llyfrau newydd yn cyrraedd ei bod yn mynd â'r llyfrau i'r ysgol i'w darllen gyda'i hathrawes a'r plant yn ei dosbarth.

Mae Ellena wedi sylwi'r effaith y mae llyfrau yn ei chael ar lythrennedd emosiynol datblygol Erica. "*Adnabod emosiynau, mae hynny'n rhywbeth y mae wedi ei wneud yn ddiweddar," meddai, "rwy'n gwybod am ffaith ei bod wedi darganfod o'r wynebau yn y llyfr*, The Perfect Fit, *sut roedd y bobl hynny'n teimlo."* Mae Ellena wedi dweud wrth ei grŵp cymorth gofal gan berthynas faint o gymorth y mae'r pecynnau wedi bod, nid yn unig ar gyfer darllen a dysgu, ond ar gyfer cefnogi datblygiad emosiynol a chreu cysylltiad. "*Fe wnes i annog eraill i gymryd golwg ar yr hyn a oedd ar gael*" meddai.

Disgrifiodd Ellena hefyd sut mae eu harferion darllen wedi newid ers derbyn Darganfyddwyr Straeon. Er bod darllen yn drefn amser gwely unwaith y dydd, mae bellach yn rhywbeth sy'n digwydd sawl gwaith y dydd, wedi'i arwain gan frwdfrydedd Erica a Zahin. "*Rydych chi'n creu amser ychwanegol pan fo'n rhywbeth y maen nhw'n teimlo cyffro amdano.*"

* Newidiwyd yr enwau i sicrhau preifatrwydd yr unigolion

## Beth nesaf?

Gall darllen helpu i greu sylfeini cryfion a llwyddiant plant mewn gofal gan berthynas yn y dyfodol. Mae BookTrust wedi bod yn cynorthwyo plant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol ers dros ugain mlynedd. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn gweithio i gynyddu cydnabyddiaeth o'r rhan y gall darllen ei chwarae i gynorthwyo teuluoedd gofalwyr sy'n berthynas, fel y gellir ymgorffori hyn yn eu systemau cymorth. Byddwn yn darparu cymorth i ymarferwyr fel y gallant harneisio grym darllen, a byddwn yn parhau i ddysgu gyda theuluoedd i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt a'r pleser y maent yn ei haeddu.

"Pe gallwn i ond ei roi mewn potel. Y pleser a'r hapusrwydd a'r chwerthin... Mae wrth ei bodd gydag *Octopus Shocktopus!*, rydym ni wedi ei gael bob un nos... Mae'r llyfr hwnnw wedi dod â chymaint o bleser a dyna'r llyfr y mae ei eisiau ac mae gwahanol sgyrsiau am y llyfr hwnnw bob un tro y byddwn ni'n ei ddarllen."

**Gofalwr sy'n berthynas, yn trafod y llyfrau a dderbyniwyd mewn sioe deithio**



## Ynglŷn â Kinship

Mae Kinship yn helpu gweithwyr proffesiynol ac awdurdodau lleol i gefnogi gofalwyr sy'n berthynas trwy amrywiaeth o wasanaethau a gomisiynir sy'n rhad ac am ddim.

[Rhagor o wybodaeth am Kinship](#) (Saesneg yn unig).

## Ynglŷn â BookTrust

BookTrust yw elusen darllen plant fwyaf y DU. Bob blwyddyn, rydym yn cael miliynau o blant i ddarllen, yn enwedig y rhai o deuluoedd ag incwm isel, a'r rhai mewn gofal maeth, gofal gan berthynas ac sydd wedi'u mabwysiadu. Mae darllen yn cefnogi llesiant plant, gan gryfhau cysylltiadau a pherthnasoedd. Mae'n cynorthwyo plant i wneud yn well yn yr ysgol a dod yn fwy creadigol. Mae'n helpu i oresgyn anfantais. Dyma pam rydym yn gweithio gyda theuluoedd, gan eu cynorthwyo i ddechrau rhannu straeon a llyfrau gyda'i gilydd o'r oedran cynharaf posibl a pharhau trwy blentyndod. Darperir ein llyfrau sy'n cael eu dethol yn ofalus a'n rhaglenni sydd wedi'u hymchwilio'n dda gan filoedd o bartneriaid lleol, gan ddod â swyn darllen i blant ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

BookTrust Story Explorers

Rhaglen newydd a ddyluniwyd gydag ac ar gyfer teuluoedd gofalwyr maeth, sy'n berthynas, a mabwysiadol yw Darganfyddwyr Straeon, i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd trwy ddarllen. [Darganfyddwch fwy am Darganfyddwyr Straeon](#) (Saesneg yn unig).

LETTERBOX the letterbox club

Rhaglen hirsefydlog â'r nod o gynorthwyo plant sy'n agored i niwed neu'n dioddef anfantais i gymryd rhan mewn darllen a rhifedd yw Clwb Blwch Llythyrau. [Darganfyddwch fwy am Clwb Blwch Llythyrau](#) (Saesneg yn unig).

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltu â ni**

queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrust

©2025 BookTrust. Rhif elusen: 313343

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

MRS Awards 2023 Winner Activation of Insight

## Endnotes


1 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *Kinship care in England and Wales: Census 2021*. Ar gael yn: ***Kinship care in England and Wales - Office for National Statistics*** (Gwelwyd: 20 Mai 2025);

CoramBAAF (n.d.) *Statistics – Northern Ireland*. Ar gael yn: **Statistics: Northern Ireland | CoramBAAF** (Gwelwyd: 22 Mai 2025).

2 Bowlby, J. (1969) *Attachment and loss. Vol. 1: Attachment*. Efrog Newydd, EN: Basic Books;

Ainsworth, M. D. S., Blehar, M. C., Waters, E. a Wall, S. (1978) *Patterns of attachment: A psychological study of the Strange Situation*. Hillsdale, NJ: Lawrence Erlbaum Associates.

3 Bergman Deitcher, D., Aram, D. ac Adar, G. (2019) *Book selection for shared reading: Parents' considerations and researchers' views*, Journal of Early Childhood Literacy, 19(3), tud. 291–315;

Egan, S. M., Moloney, M., Pope Breatnach, D. a Hoyne, C. (2022) *From stories at bedtime to a love of reading: Parental practices and beliefs about reading with infants*, Journal of Early Childhood Literacy, 25(1), tud. 158–84;

Kucirkova, N. a Grøver, V. (2024) T*he importance of embodiment and agency in parents' positive attitudes towards shared reading with their children*, Early Childhood Education Journal, 52(1), tud. 221–30;

Rabinowitz, S., Pavlov, C., Mireku, B., Ying, K., Zhang, J. a Read, K. (2021) '*I feel less blue when I read with you': The effect of reading aloud with a child on adult readers' affect*, Frontiers in Psychology, 12, Erthygl 706729;

Weisleder, A., Cates, C. B., Harding, J. F., Johnson, S. B., Canfield, C. F., Seery, A. M. a Mendelsohn, A. L. (2019) *Links between shared reading and play, parent psychosocial functioning, and child behaviour: Evidence from a randomized controlled trial*, The Journal of Pediatrics, 213, tud. 187–95.

4 BookTrust (2025) *The wellbeing benefits of reading for children*. Llundain: BookTrust.


Dyfyniad: BookTrust (2025) *The relational value of reading: insights from kinship families*. Leeds: BookTrust.